



## **GWYBODAETH BWYSIG I BAWB**

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Croeso'n ôl wedi gwyliau'r Pasg. Mawr obeithiaf fod pawb wedi cael gwyliau pleserus. Mae'r sefyllfa o ran y pandemic yn parhau i fod yn un heriol a rhyfedd i bawb. Byddwn felly yn parhau i ddilyn y trefniadau dyddiol a oedd yn ei lle cyn y Pasg, am y tymor sydd o'n blaen. Hoffwn eich atgoffa o rai o'r trefniadau fel rhan o'n hymdrechion parhaus i sicrhau diogelwch pawb,

**Cyrraedd / Gadael ysgol / Parcio** - Byddwch wedi sylwi ein bod wedi gwneud rhai newidiadau i'n hamserlen ddyddiol. Un o'r prif resymau am hyn yw i geisio lleihau y nifer o rieni/gofalwyr sydd yn cyrraedd safle'r ysgol ar yr un amser, ac i hwyluso trefniadau traffig. Gofynnwn i bob rhiant/gofalwr i sicrhau nad ydynt yn cyrraedd yr ysgol dim mwy na 5munud cyn amser cychwyn a gorffen eich plentyn. Gweler amseroedd y sesiynau, sydd wedi ei rhannu efo chi yn flaenorol.

8.55 - CA2 Cychwyn

3.00 - CA2 Gorffen

9.00 - Meithrin Cychwyn

11.30 - Meithrin Gorffen

9.15 - Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2 - Cychwyn

2.45 - Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2 - Gorffen

**Gofynnir i bob rhiant/gofalwr adael safle'r ysgol yn brydlon ar ôl gollwng y plant i ffwrdd ac ar ôl casglu'r plant ar ddiwedd y dydd.**

**Casglu plant o'r buarth** - Erbyn hyn dylai'r rhan fwyaf ohonoch fod yn gyfarwydd gyda'r trefniadau o gasglu eich plentyn o fuarth yr ysgol. Oherwydd rhesymau diogelwch, ac yn ein hymdrechion i leihau y niferoedd sydd ar y buarth yn ystod y cyfnod prysur hwn, hoffwn eich atgoffa mai **dim ond un oedolyn/riant a ddylai ddod i gasglu'r plentyn o'r buarth**. Gofynnir i orchudd wyneb hefyd gael ei gwisgo gan rieni/gofalwyr ar gampws yr ysgol. Unwaith eto, gofynnwn i bawb ymadael a'r buarth yn syth ar ôl casglu'r plentyn, gan ddilyn y llwybr un ffordd. Dylai fod eich plentyn yn aros gyda chi ar ôl cael ei ryddhau gan yr athro/awes, gan osgoi mynd i chwarae efo plant eraill, yn arbennig plant o swigod grwpiau oedran gwahanol.

**Gofynnir i bawb barchu rheolau ymbellhau cymdeithasol, gan gadw pellter diogel oddi wrth eraill pan yn casglu plant.**

**Salwch / Symptomau** - Os yw eich plentyn yn teimlo yn sâl neu yn dangos symptomau Covid-19, yna ni ddylai ef/hi fynychu'r ysgol. Dylai ef/hi aros adref hyd nes y mae ef/hi yn teimlo yn well. Os yw eich plentyn, neu unrhyw aelod arall o'r teulu yn dangos symptomau o Covid-19, dylid gwneud trefniadau i gael prawf. Bydd angen i chi hysbysu'r ysgol os yw'r camau hyn wedi ei chymryd.

### **Dyddiadau**

Gwyl Banc Calan Mai 03.05.21

Hanner tymor Cau - 28.05.21 Agor - 07.06.21

**Dysgu o bell** - Yn ystod y cyfnod clo, bu'r plant yn gwneud defnydd o gyfri llwyfan dysgu HWB personol ar lein i'w cefnogi gyda'r dysgu o adref. Bydd eich plentyn yn parhau i wneud defnydd o'r adnodd, ac yn achlysurol bydd yr athro dosbarth yn gofyn i'r plant gwblhau gwaith cartref drwy ddefnydd o'r cyfrif HWB. Gan ein bod yn parhau i fod mewn cyfnod bregus ac ansicr iawn o ran Covid-19, mae angen i ni fod yn barod i ymateb i sefyllfa ble y bydd angen cau yr ysgol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Os y byddwn yn wynebu sefyllfa o'r fath, yna bydd yr athro dosbarth yn cydlynnu'r dysgu drwy gyfri HWB y plentyn. Mae'r athrawon yn barod wedi bod yn ymgyswddo'r plant gyda'i cyfri HWB yn y dosbarth, ac felly y gobaith yw y bydd y plant yn gallu troi at ei hwn os yw sefyllfa yn codi.

**Cinio ysgol** - Mae cinio ysgol ar gael, ac yn cael ei weini yn neuadd yr ysgol ar amseroedd gwahanol ar gyfer grwpiau oed gwahanol. Bydd angen gwneud taliadau am ginio a dewis o'r fwydlen ymlaen llaw drwy system ParentPay.

**O ddydd Llun Ebrill 19eg, bydd angen archebu cinio ysgol ymlaen llaw gan ddefnyddio ParentPay, gan gynnwys plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bydd angen archebu cinio erbyn 8am neu gallwch archebu wythnos ymlaen llaw. Gweler y wybodaeth atodedig ar sut i archebu pryd o fwyd trwy ParentPay. Ymddiheurwn fod y wybodaeth ar gael yn Saesneg yn unig.**

Os nad ydych wedi derbyn manylion mewngofnodi eich plentyn ar gyfer ParentPay, cysylltwch â swyddfa'r ysgol trwy e-bostio [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk)

**Cyfathrebu** - Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal â App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion allweddol.

Byddem yn gwerthfawrogi a byddai o gymorth mawr pe byddai rhieni/gofalwyr yn sicrhau fod y wybodaeth uchod yn cael ei gyfathrebu gydag unrhyw oedolion eraill sydd gyda chyfrifoldeb am ddod a'r plant i'r ysgol neu gasglu'r plant o'r ysgol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus

Yn gywir,

*Mr Rhodri Jones*

Pennaeth